# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Gwener, 15 Chwefror 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Gwyneth Kensler, Barry Mellor (Cadeirydd), Merfyn Parry, Arwel Roberts a/ac Gareth Sandilands

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland, Bob Murray a/ac Peter Owen

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na niweidiol mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2012.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 CYMHARU ADNODDAU AR GYFER CRAFFU YNG NGOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol) ynglŷn â'r adnoddau ar gael i bob awdurdod lleol a'r ffyrdd maent yn cael eu dosbarthu.

Gofynnwyd am yr adroddiad yn ystod cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cymharu adnoddau Pwyllgorau Craffu gogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar swyddogaethau Craffu pob Cyngor yng ngogledd Cymru yn ôl eu hadroddiadau blynyddol.

Yn dilyn cais y Pwyllgor, cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai’n holi ynghylch swm y gyllideb hyfforddi ac yn adrodd yn ôl.

Byddai sefydlu cyfarfod Craffu ar y Cyd yn broses anodd. Ar hyn o bryd nid oes gan Sir Ddinbych y gallu a byddai’n rhaid aildrefnu patrymau gwaith i ddelio â hyn.

Yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru roedd bwriad y tu ôl i’r mesur i ddarparu cyfle craffu mwy agored ac ar gyfer aelodau o’r cyhoedd. Awgrymwyd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen a fyddai’n agored i aelodau o’r cyhoedd a mudiadau gwirfoddol. Os sefydlir Grŵp Tasg a Gorffen, bydd yn effeithio ar adnoddau a byddai Craffu ar y Cyd yn effeithio cryn dipyn ar adnoddau. Roedd adroddiad am gael ei gyflwyno yn ystod Brîff y Cyngor i alluogi’r Aelodau gymryd rhan yn y drafodaeth. Byddai’r mater hefyd yn cael ei gyflwyno i’r Grwpiau Gwleidyddol er mwyn iddyn nhw ei drafod cyn cyfarfod Brîff y Cyngor ym mis Tachwedd.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio bod y taflenni craffu wedi eu dosbarthu. Mae’r Cydlynydd Archwilio hefyd wedi edrych i mewn i’r wybodaeth sy’n cael ei chynnwys yn Llais y Sir. Os codir mater trwy’r taflenni, byddai’n cael ei ddwyn i sylw Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio er mwyn iddyn nhw benderfynu a yw’n fater ar gyfer Archwilio neu’n fater ar gyfer Aelod Ward, Aelod Grŵp Ardal neu Wasanaeth Cwsmer.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo’r adroddiad.*

## 6 CANLYNIADAU AROLWG AMSERIAD CYFARFODYDD

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol) ynglŷn ag asesu canlyniadau Arolwg Amseriad Cyfarfodydd.

Trafodwyd amserlen ddrafft cyfarfodydd Mai 2013 - Mai 2014. Lle bynnag bo’n bosib nid yw cyfarfodydd wedi eu trefnu yn ystod gwyliau ysgol. Byddai egwyl ym mis Awst fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Roedd amserlenni cyfarfodydd rhai Pwyllgorau wedi eu cynllunio i gyd-daro â materion a ŵyr amdanynt. Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol ar 27 Medi: roedd cais wedi dod i law i drefnu’r cyfarfod 2 ddiwrnod yn ddiweddarach i hwyluso llunio’r datganiad o gyfrifon.

Dychwelwyd oddeutu 30 holiadur wedi eu cwblhau gan Aelodau. Roedd y rhan fwyaf o’r Aelodau’n ffafrio cynnal cyfarfodydd yn y bore ac wedi dewis Rhuthun fel y lle gorau i’w cynnal. Dywedwyd y byddai’n ddefnyddiol derbyn rhestr o bawb a ddychwelodd holiadur a chytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i gasglu a dosbarthu’r wybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn a chadarnhau’r canlynol:-*

- *(i) Amserlen ddrafft cyfarfodydd Pwyllgorau, a*
- *(ii) Amseriad priodol cyfarfodydd (yn seiliedig ar ymateb Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig i’r holiadur)*

7 **DIWEDDARIAD AR GANLLAWIAU STATUDOL TERFYNOL:**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad llafar ynglŷn â materion Craffu ar y Cyd a'r broses i gefnogi Adroddiadau Blynyddol.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd diweddariad pellach ar gael ar y canllaw statudol terfynol ar adroddiadau blynyddol Aelodau. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod yn rhaid i bob awdurdod lleol gael trefniadau yn eu lle i alluogi Aelodau baratoi adroddiad blynyddol yn ymwneud â'u gweithgareddau yn ystod y 12 mis diwethaf. Byddai templed adroddiad yn cael ei lunio ar gyfer Aelodau. Unwaith y byddai'r adroddiadau blynyddol yn cael eu cwblhau, byddai proses fetio yn ei le i sicrhau mai gwybodaeth berthnasol yn unig oedd yn yr adroddiadau.

Argymhellwyd y dylai pob Aelod gael gwybod am y posibilrwydd o lunio adroddiad blynyddol er mwyn iddyn nhw allu cadw cofnod o'u gwaith i hwyluso pethau pan fyddan nhw'n mynd ati i lunio eu hadroddiad.

Er na fyddai'n orfodol i Aelodau lunio'r adroddiadau, fe ellir disgwyl i Aelodau eu llunio.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn a nodi'r wybodaeth.*

8 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad llafar ynglŷn â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gofynnodd am faterion i'w trafod yn y dyfodol.

Holodd yr Aelodau p'un ai fyddai'r cyfarfod ar 24 Mai yn gworwm gan nad yw'n debygol y bydd y Cynghr. Gwyneth Kensler, Barry Mellor ac Arwel Roberts yn bresennol a gofynnwyd a fyddai modd cysylltu ag Aelodau eraill y Pwyllgor i dderbyn cadarnhad o'u presenoldeb.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r wybodaeth ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 a.m.**